OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 842 (Cy.74)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*13 Mawrth 2007*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**2**) ac o ran mesurau yn y maes milfeddygol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(**3**).

Mae'r Trysorlys yn cydsynio i'r Rheoliadau hyn yn unol ag adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973(**4**).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973.

RHAN 1

RHAGYMADRODD

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Ebrill 2007.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodwyd yn arolygydd at ddibenion y Rheoliadau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan awdurdod lleol;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") o ran ardal yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

(**1**) 1972 p. 68.
(**2**) O. S. 2005/2766.
(**3**) O. S. 2003/1246.
(**4**) 1973 p. 51.

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid, boed hynny'n barhaol neu dros dro, gan gynnwys pan gludir hwy neu pan fyddant mewn marchnad;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw sefydliad, adeiladwaith neu, yn achos fferm awyr agored, unrhyw le y mae gwartheg yn cael eu dal, eu cadw neu eu trafod;

"deddfwriaeth tagio gwartheg flaenorol" ("*previous cattle tagging legislation*") yw—

(a) Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998(**5**);

(b) Gorchymyn Anifeiliaid Buchol (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1995(**6**);

(c) Gorchymyn Anifeiliaid Buchol (Cofnodion Adnabod, Marcio a Bridio) 1990(**7**);

(ch) Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru a Lloegr) 1984(**8**); a

(d) Gorchymyn Twbercwlosis (yr Alban) 1984(**9**);

ystyr "dilys" ("*valid*"), o ran pasbort gwartheg, yw pasbort gwartheg a gafodd ei gwblhau'n gywir a'i lofnodi yn y lle priodol yn gywir gan bob ceidwad i'r anifail a bod Rhif adnabod a disgrifiad o'r anifail yn y pasbort yn cyfateb i dagiau clust yr anifail;

ystyr "gwartheg" ("*cattle*") yw anifeiliaid buchol, gan gynnwys bison a byfflo;

ystyr "pasbort gwartheg" ("*cattle passport*") yw—

(a) pasbort gwartheg a ddyroddwyd yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban o dan Erthygl 6(1) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000;

(b) pasbort gwartheg a ddyroddwyd o dan Orchymyn Pasbortau Gwartheg 1996(**10**); ac

(c) dogfen symud a ddyroddwyd o dan Reoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hyn) (Cymru) 2000(**11**) neu'r mesur cyfatebol yn yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000" ("Regulation (EC) No. 1760/2000") yw Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor (sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac sy'n ymwneud â labelu cynhyrchion cig eidion ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97(**12**));

(2) Rhaid i unrhyw gymeradwyaeth, awdurdodiad, trwydded, hysbysiad neu gofrestriad a ddyroddir o dan—

(a) y Rheoliadau hyn,

(b) Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000;

(c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 911/2004 (sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran tagiau clust, pasbortau a chofrestrau daliadau(**13**)); neu

(ch) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 644/2005 (sy'n awdurdodi system adnabod arbennig ar gyfer anifeiliaid buchol a gedwir at ddibenion diwylliannol a hanesyddol mewn mangreoedd a gymeradwywyd fel a ddarperir yn Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**14**)),

(**5**) O. S. 1998/871.
(**6**) O. S. 1995/12.
(**7**) O. S. 1990/1867.
(**8**) O. S. 1984/1943.
(**9**) O. S. 1984/2036.
(**10**) O. S. 1996/1686.
(**11**) O. S. 2000/3339 (Cy.217), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2002/273 (Cy.29).
(**12**) OJ Rhif L204, 11.8.2000, t. 1.
(**13**) OJ Rhif L 163, 30.4.2004, t. 65.
(**14**) OJ Rhif L 107, 28.4.2005, t. 18.

fod yn ysgrifenedig, caniateir i unrhyw un ohonynt gael ei wneud yn ddarostyngedig i amodau, cael ei ddiwygio, cael ei atal neu ei ddirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw bryd.

RHAN 2

Hysbysiad o ddaliadau

3.—(1) Rhaid i feddiannydd daliad sy'n dechrau cadw gwartheg ar y daliad hwnnw, ac unrhyw berson sy'n cymryd y feddiannaeth drosodd o ddaliad lle y cedwir gwartheg, hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn un mis—

(a) o'i enw a'i gyfeiriad; a

(b) cyfeiriad y daliad.

(2) Pan fydd yn derbyn hysbysiad o dan baragraff (1) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddyroddi nod buches ar gyfer pob daliad.

(3) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o unrhyw newid i'r wybodaeth ym mharagraff (1) o fewn un mis.

RHAN 3

Adnabod a chofrestru gwartheg

Tagiau clust

4. Mae Atodlen 1 (tagiau clust) yn effeithiol.

Cofrestru gwartheg

5. Mae Atodlen 2 (cofrestru gwartheg) yn effeithiol.

Pasbortau gwartheg

6. Mae Atodlen 3 (pasbortau gwartheg) yn effeithiol.

Hysbysiad o symudiadau a marwolaeth

7. Mae Atodlen 4 (hysbysiad o symud neu farwolaeth) yn effeithiol.

Cofnodion

8. Mae Atodlen 5 (cofnodion) yn effeithiol.

RHAN 4

CYFFREDINOL

Codi tâl am wybodaeth

9. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol godi tâl rhesymol am ddarparu gwybodaeth a gaiff ei storio yn y gronfa ddata sy'n ofynnol gan Erthygl 5 o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 ac a ddarperir yn unol ag ail baragraff Erthygl 3 o'r Rheoliad hwnnw.

Pwerau arolygwyr

10.—(1) Caiff arolygydd, wrth iddo ddangos dogfen a ddilyswyd yn briodol sy'n dangos ei awdurdod, os gofynnir amdani, ar bob adeg resymol fynd ar dir neu i fangre er mwyn canfod a aethpwyd yn groes i'r canlynol —

(a) y Rheoliadau hyn;

(b) Teitl I o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000;

(c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 494/98 (sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97 o ran cymhwyso y lefel isat o sancsiynau yn fframwaith y system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol(**15**));

(ch) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 509/1999 (ynghylch estyn y cyfnod hiraf a osodwyd ar gyfer rhoi tagiau clust ar fison(**16**))

(d) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 911/2004; ac

(dd) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 644/2005,

ac yn y rheoliad hwn mae "mangre" yn cynnwys unrhyw le, gosodiad, cerbyd, llong, llestr, cwch, bad, hofranlong neu awyren.

(2) Dim ond os caiff y pwer ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r darpariaethau ym mharagraff (1) y mae pwer i fynd i fangre yn cynnwys y pwer i fynd i fangre ddomestig.

(3) Caiff arolygydd gyflawni gwiriadau ac archwiliadau sy'n angenrheidiol ar gyfer gorfodi'r darpariaethau ym mharagraff (1), a chaiff yn benodol—

(a) casglu, corlannu ac arolygu unrhyw wartheg, a chaiff ofyn i'r ceidwad drefnu casglu, corlannu a dal gafael ar wartheg;

(b) cymryd samplau;

(c) archwilio unrhyw gofnodion ar ba ffurf bynnag y bônt a chymryd copïau o'r cofnodion hynny;

(ch) symud a chadw unrhyw gofnodion neu ddogfennau (gan gynnwys pasbortau) sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn;

(d) cael mynediad at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau cysylltiedig sy'n cael neu sydd wedi cael eu defnyddio mewn cysylltiad â chofnodion, a'u harchwilio a gwirio eu gweithrediad a gall ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'u gweithredu, roi i'r arolygydd unrhyw gymorth y bydd yn rhesymol i'r arolygydd ofyn amdano;

(dd) os cedwir cofnodion drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff ei gwneud yn ofynnol bod y cofnodion yn cael eu cynhyrchu ar ffurf sy'n caniatáu mynd â hwy oddi yno;

(**15**) OJ Rhif L60, 28.2.1998, t. 78.
(**16**) OJ Rhif L60, 9.3.1999, t. 53,

(e) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw dagiau clust nas defnyddiwyd, a chofnod o'u Rhif au gael eu dangos; ac

(f) mynd â chynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd neu unrhyw berson arall y mae o'r farn bod ei angen gydag ef.

Pwerau i gyfyngu ar symudiadau

11. Yn unol ag ail baragraff Erthygl 22(1) o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000, caiff swyddog o'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno i geidwad anifeiliaid ar ddaliad hysbysiad yn cyfyngu symudiadau gwartheg i'r daliad ac ohono os yw wedi'i fodloni bod angen hyn er mwyn gorfodi'r Rheoliad hwnnw, y Rheoliadau hyn, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 494/98, Rhif 509/1999, Rhif 911/2004 a Rhif 644/2005, a bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw'n euog o dramgwydd.

Cigydda anifeiliaid heb eu marcio

12. Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod milfeddygol a'r awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 1(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 494/98.

Rhwystro etc

13.—(1) Mae person sydd—

(a) yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith;

(b) heb achos rhesymol, yn methu â rhoi i unrhyw berson sydd yn gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith, unrhyw gymorth neu wybodaeth y mae'r person hwnnw yn rhesymol yn gofyn amdano neu amdani er mwyn i'r person hwnnw gyflawni ei swyddogaethau;

(c) yn rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith unrhyw wybodaeth y mae'r person hwnnw sy'n rhoi'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol; neu

(ch) yn methu â dangos pasbort, dogfen neu gofnod, pan ofynnir iddo wneud hynny, i unrhyw berson sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn;

yn euog o dramgwydd.

(2) Mae unrhyw berson sy'n rhoi gwybodaeth anwir yn unrhyw hysbysiad a wneir o dan y Rheoliadau hyn yn euog o dramgwydd.

Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol

14.—(1) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r corff corfforaethol; neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath,

bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "cyfarwyddwr" mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei fusnes yn cael ei reoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.